## Canllawiau i Fentoriaid

## Cynllun Mentora Dysgwyr Prifysgol Aberystwyth

## Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg

**Cyflwyniad**

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i roi cefnogaeth ymarferol i staff sy'n dysgu'r Gymraeg yn unol â thelerau Cynllun Iaith Gymraeg 2003 (cymal 6.7) ac mae'r Cynllun Iaith Diwygiedig yn cyfeirio at fentora fel rhan bwysig o weithredu'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog.

Wrth ddatblygu'r Cynllun Mentora Dysgwyr anelir at gyflawni'r amcanion hyn:

i. gwella sgiliau llafar dysgwyr y Gymraeg a chynyddu eu hyder
ii. annog defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle
iii. dangos i ddysgwyr y Gymraeg bod y Brifysgol yn cydnabod yr ymdrech y maent yn ei gwneud i ddysgu'r iaith
iv. cyfle i siaradwyr rhugl ymarfer eu sgiliau cyfathrebu a chael boddhad wrth helpu cydweithiwr i gyflawni eu nod
v. dangos i siaradwyr Cymraeg bod y Brifysgol yn cydnabod y ffaith bod ganddynt sgil sy'n werthfawr
vi. meithrin yr ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned y Brifysgol (drwy gwrdd â staff o adrannau gwahanol)
vii. hyrwyddo Cymreictod y Brifysgol mewn modd anfygythiol

**Beth yw'r cynllun mentora?**

Pwrpas y cynllun mentora yw rhoi cyfle i ddysgwyr y Gymraeg ymarfer yr hyn y maent wedi'i ddysgu gyda pherson cyfeillgar ac amyneddgar sy'n fodlon rhoi cyfnod penodol o amser iddynt bob wythnos/pythefnos i wrando a sgwrsio gyda hwy mewn awyrgylch anffurfiol. Gyda dysgwyr mwy profiadol mae'n gyfle iddynt gael profiad o acenion gwahanol a chlywed y Gymraeg yn cael ei siarad yn 'naturiol'.

Mae gweithleoedd eraill yng Nghymru hefyd yn cynnal cynlluniau mentora i ddysgwyr Cymraeg e.e. Cymal, Llywodraeth y Cynulliad, Llyfrgell Prifysgol Bangor.

**Pwy sy'n mentora?**

Aelodau o staff sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl. Gall rhain fod yn siaradwyr iaith gyntaf, neu'n ddysgwyr profiadol iawn.

**Pam ddylwn i fod yn fentor?**

Mae'r profiad o fentora yn y gweithle yn cael ei ystyried fel sgil arbennig sy'n cael ei gydnabod ar raglenni datblygu staff. Mae mentora dysgwyr Cymraeg yn cynnwys nifer o'r sgiliau sy'n cael eu defnyddio gan fentoriaid yn ystyr mwy confensiynol y gair e.e. datblygir sgiliau cyfathrebu, arwain a chynghori ac mae'n brofiad y gellwch ei gynnwys ar eich CV. Mae mentora yn eich gwneud yn fwy ymwybodol o anghenion pobl eraill, ac yn eich galluogi i brofi safbwynt gwahanol y dysgwr. Gellir cael boddhad personol hefyd wrth helpu rhywun i wireddu eu hamcanion. Gall mentora fod yn gyfle i chi gymharu profiadau gyda rhywun sy'n gweithio mewn adran arall a

darganfod sut mae adrannau/timau gwahanol yn y Brifysgol yn gweithio. Hefyd, mae mentora yn gyfle i wneud ffrindiau newydd!

**Pa sgiliau sydd eu hangen arnaf i fod yn fentor?**
Amynedd yn bennaf! Bod yn fodlon gwrando a chynnig anogaeth. Does dim angen gwybod am ramadeg neu reolau treiglo, dim ond rhoi cyfle i'r dysgwr ddweud ei ddweud yn Gymraeg.

**Sut fyddwch chi'n paru mentor â dysgwr/wraig?**
Efallai y bydd dysgwr/wraig sydd yn eich adnabod yn barod yn eich enwebu. Fel arall byddwn yn chwilio am rywun sy'n gweithio ar yr un campws, a byddwn yn ceisio osgoi rhoi rheolwyr llinell yn fentoriaid i staff sy'n gweithio iddynt. Byddwn yn gofyn i ddysgwyr a ydynt yn dymuno cael dyn neu ddynes yn fentor iddynt, neu os nad oes ganddynt wahaniaeth. Os fyddwch yn teimlo nad yw'r berthynas fentora yn gweithio gydag unigolyn arbennig, cysylltwch â ni ac fe geisiwn ddarganfod rhywun arall, neu gyfnewid â rhywun arall.

**Pa mor aml y dylwn ni gwrdd?**
Er mwyn i'r cynllun mentora lwyddo mae angen bod yn hyblyg. Byddwch yn trafod gyda'r dysgwr i weld pa bryd sy'n gyfleus i'r 2 ohonoch. Os na lwyddwch i gwrdd un tro ystyriwch gysylltu â'r dysgwr gan ddefnyddio'r ffôn neu e-bost yn Gymraeg – bydd hyn hefyd yn help iddynt. Os bydd y dysgwr yn eich e-bostio peidiwch ag anfon yr e-bost yn ôl atynt wedi'i gywiro – pwrpas yr ymarfer yw deall ac ymateb. Os fyddwch yn teimlo bod amser yn mynd yn drech na chi ac na fedrwch barhau gyda'r mentora, cysylltwch â ni er mwyn i ni geisio darganfod mentor arall ar gyfer y dysgwr/wraig.

**Pa weithgareddau allaf i a'r dysgwr/wraig eu gwneud?**
Bydd hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar yr unigolyn. Rydym yn awgrymu eich bod yn treulio'r sesiwn gyntaf yn trafod beth yw anghenion y dysgwr a'r hyn mae ef neu hi yn ei ddisgwyl gennych chi. Mae'n bosibl mai'r cyfle i gael sgwrs syml yn Gymraeg dros baned fydd dymuniad rhai, ond efallai bydd eraill eisiau trafod yn fanylach yr hyn y maent wedi ei ddysgu yn y dosbarth yr wythnos gynt. Efallai y byddant eisiau mynd dros y wers gyda chi, neu drafod eu gwaith cartref gyda chi. Gadewch i'r dysgwr eich arwain.

**A ddylwn i gywiro camgymeriadau'r dysgwr?**
Pwrpas y mentora yw meithrin hyder y dysgwr a gall gormod o gywiro danseilio hyder y dysgwr yn hawdd. Rydym yn awgrymu eich bod yn osgoi cywiro ar y cyfan – gadewch hynny i'r tiwtor yn y dosbarth! Os ydych wedi gallu deall beth mae'r dysgwr wedi'i ddweud yna mae'r dysgwr wedi llwyddo i gyfathrebu yn Gymraeg a does dim angen cywiro, dim ond parhau gyda'r sgwrs. Ond os ydy'r dysgwr yn gofyn e.e. ' ydw i'n dweud y gair yma yn iawn?' yna mae'n briodol i chi ei gywiro wedyn os oes angen. Efallai y bydd y dysgwr yn gofyn i chi ei gywiro yn aml, ac mae hyn yn rhywbeth i chi drafod gyda'ch gilydd, ond fel arfer mae cynlluniau mentora dysgwyr y Gymraeg yn argymell peidio â chywiro.

**Pwyntiau i'w cofio**

- Siaradwch yn araf ond heb weiddi.
- Peidiwch â chwerthin am ben y dysgwr/wraig pan fydd wedi gwneud camgymeriad.
- Peidiwch â gorffen brawddegau ar ran dysgwr/wraig. Mae'r dysgwr/wraig yn araf wrth siarad gan fod angen amser arno/i i feddwl.
- Mae dysgwr/wraig yn cael ei dd/dysgu i siarad Cymraeg llafar i ddechrau. Peidiwch â dweud wrtho/i ei fod/bod yn cael ei ddysgu/dysgu yn anghywir.

- Cofiwch gysylltu â'r Ganolfan (canolfangymraeg@aber.ac.uk / 01970 622045) os ydych chi eisiau trafod unrhyw agwedd ar fod yn fentor.